OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 163

# Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019

## RHAN 18

## Darparwyr gwasanaethau sydd wedi eu datod etc. neu sydd wedi marw

### Penodi datodwyr etc.

**66.** Rhaid i berson a benodir(**1**)—

(a) yn ddi-oed, roi hysbysiad ysgrifenedig i'r rheoleiddiwr gwasanaethau o'i benodiad a'r rhesymau dros ei benodi;

(b) o fewn 28 o ddiwrnodau i'w benodi, hysbysu'r rheoleiddiwr gwasanaethau o'i fwriadau ynghylch gweithrediad y gwasanaeth yn y dyfodol.

### Marwolaeth y darparwr gwasanaeth

**67.**—(1) Pan fo'r darparwr gwasanaeth sy'n unigolyn wedi marw, rhaid i gynrychiolwyr personol yr unigolyn—

(a) yn ddi-oed, roi hysbysiad ysgrifenedig o'r farwolaeth i'r rheoleiddiwr gwasanaethau;

(b) o fewn 28 o ddiwrnodau i'r farwolaeth, hysbysu'r rheoleiddiwr gwasanaethau am eu bwriadau ynghylch gweithrediad y gwasanaeth yn y dyfodol.

(2) Caiff cynrychiolwyr personol yr unigolyn weithredu yn rhinwedd y darparwr gwasanaeth am gyfnod nad yw'n hwy nag 28 o ddiwrnodau neu am unrhyw gyfnod hwy (nad yw'n hwy nag un flwyddyn) y mae'r rheoleiddiwr gwasanaethau yn cytuno arno.

(3) Pan fo'r cynrychiolwyr personol yn gweithredu yn rhinwedd y darparwr gwasanaeth yn unol â pharagraff (2), mae Rhan 1 o'r Ddeddf yn gymwys gyda'r addasiadau a ganlyn—

(a) nid yw adran 5 (gofyniad i gofrestru) yn gymwys;

(b) mae adran 21(2) (unigolion cyfrifol) i'w darllen fel pe bai'r canlynol wedi ei fewnosod ar ôl paragraff (a)—

"(aa) pan fo cynrychiolwyr personol darparwr gwasanaeth sydd wedi marw yn gweithredu yn rhinwedd y darparwr gwasanaeth, fod yn un o'r cynrychiolwyr personol;".

(**1**) Mae i "person a benodir" yr un ystyr ag yn adran 30 o'r Ddeddf.